

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB)

Gwybodaeth i Yrwy'r Cerbydau Hacni a Llogi Preifat

Mae'r canllaw hwn i roi gwybod i yrwy'r Cerbydau Hacni a Llogi Preifat ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant, beth ydyw, sut y gallai effeithio arnoch a sut y gallwch gadw eich plant yn ddiogel.



Beth yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB)?

Mae Camfanteisio Rhywiol ar Blant (CRhB) yn ffurf gudd ar gam-drin plant, ac mae'n drosedd. Mae CRhB yn cynnwys twyllo, cymell neu ddylanwadu ar fechgyn a merched ill dau i gyflawni gweithredoedd rhywiol. Mae'n annhebygol y bydd plant sy'n dioddef o gamfanteisio rhywiol yn dweud wrth oedolion am yr hyn sy'n digwydd. Gallai hyn fod gan nad ydynt yn meddwl bod unrhyw beth o'i le neu gan fod ofn amynt.

Gallai'r camdriniwr roi pethau fel alcohol, cyffuriau neu roddion fel sgidiau rhedeg newydd neu emwaith i'r plant. Gallai'r camdriniwr hefyd ddenu plant drwy eu hargyhoeddi eu bod mewn perthynas. Ni all plentyn weld ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhyw am fod y sawl sy'n cam-drin wedi ei dwyllo neu â dylanwad arno mewn rhyw fodd. Er enghraifft, gallai fod llun anwedus ganddo o'r plentyn y mae'n ei ddefnyddio i'w fygwth a gwneud iddo ddilyn ei orchmynion. Gall y paratŷi amhriodol a'r gamdriniaeth ddechrau ar-lein cyn digwydd wyneb yn wyneb, a gall ddigwydd o fewn grwpiau o ffrindiau o oedran tebyg.

Mae camdrinwyr yn gwybod sut mae targedu plant sy'n agored i niwed ac yn sgilgar wrth eu denu atynt ac ennill eu hymddiriedaeth. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i blant y camfanteisiwyd amynt ddeall yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw pan gânt eu targedu, eu rheoli, eu dylanwadu a'u defnyddio.

Ble mae'n digwydd?

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a pharatŷi i bwrpas rhyw yn digwydd mewn llefydd cyhoeddus fel gwestyau, tafarnau, clybiau, siopau tecawê, siopau prydau parod a pharciau, ond mae'n digwydd fynychaf yng nghartrefi pobl. Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn digwydd ym mhob ardal o'r DU.

Beth allwch ei wneud?

Chi yw llygaid a chlustiau ein dinas. Mae CRhB yn ffurf gudd ar gam-drin ac mae'r rhai sy'n cam-drin yn dibynnu ar dawlwch y rhai sy'n rhan o'r peth er mwyn gallu gweithredu. Ni all yr heddlu ar eu pennau eu hunain fynd i'r afael a CRhB. Drwy gydweithio gyda heddlu ac asiantaethau eraill gallwch helpu i wneud y gwahaniaeth i blentyn mewn perygl. Mae pawb sydd yn dod i gysylltiad â phlant a rôl i'w chwarae wrth ddiogelu. Mae cadw plant yn ddiogel yn gyfrifoldeb ar bob.



Sylwi ar yr arwyddion

Beth fyddech chi'n ei wneud pe bai gennych deimlad annifyr am blentyn neu berson ifanc y daethoch i gysylltiad â nhw? ?

Esiamp1 1

Rydych yn gweithio ar shifft nos ac mae person ifanc yn esgyn i'r tacsï gyda pherson sy'n amlwg yn hŷn. Nid yw'n edrych fel person ifanc sydd gyda rhiant neu frawd neu chwaer hŷn. Mae'r person hŷn yn gofyn i chi fynd â nhw i westy. Rydych yn amau fod y person ifanc o dan 18 oed.

Beth fyddech yn ei wneud?

Gan fod perygl ar ei union i'r person ifanc, dylech gysylltu â'r heddlu a dweud wrthynt am eich pryderon cyn gynted ag y bo modd drwy ddeialu 999.

Esiamp1 2

Rydych yn gweithio ar shifft nos pan godwch berson a oedd wedi archebu ymlaen llaw. Mae person ifanc yn esgyn i'r cerbyd gyda pherson sy'n amlwg yn hŷn. Cyfeiriad preifat yw'r cyfeiriad yr archebwyd y cerbyd i fynd iddo. Mae sgwrs a gweithredoedd y person hŷn yn eich gwneud yn anghyfforddus ac rydych yn eu clywed nhw'n siarad am weithgaredd rhywiol. Rydych yn amau fod y person ifanc o dan 18 oed.

Beth fyddech yn ei wneud?

Gan fod perygl ar ei union i'r person ifanc, dylech gysylltu â'r heddlu a dweud wrthynt am eich pryderon cyn gynted ag y bo modd drwy ddeialu 999.

Esiamp1 3

Rydych yn aros y tu allan i dafarn am 11.30pm pan sylwch ar berson ifanc yn gadael y safle. Mae'n ymddangos yn feddw iawn. Daw rhywun sy'n ymddangos fel dieithryn at y person ifanc a chynnig lifft adref iddo. Daw ffrindiau'r person ifanc allan o'r dafarn ac nid yw'n esgyn i gerbyd y dieithryn.

Beth fydddech yn ei wneud?

Gan nad oes perygl ar ei union i'r person ifanc, dylech ei gymryd i'r cyfeiriad a ffonio 101 i roi gwybod i'r heddlu am eich pryderon.

Esiamp1 4

Mae archeb i chi godi teithwyr o glwb am 4.30am lle mae tri pherson ifanc, sy'n ymddangos yn feddw, yn disgwyl amdanoch chi. Cyfeiriad preifat yw'r cyfeiriad yr archebwyd y cerbyd i fynd iddo. Rydych yn credu fod yr unigolion o dan 18 oed.

Beth fydddech yn ei wneud?

Gan nad oes perygl ar ei union i'r bobl ifanc, dylech eu cymryd i'r cyfeiriad a ffonio 101 i roi gwybod i'r heddlu am eich pryderon.


Esiamp1 5

Cewch eich archebu i godi teithwyr am hanner nos o gyfeiriad y gwyddoch sy'n cynnig llety â chymorth i bobl sy'n agored i niwed gan gynnwys plant 16 ac 17 oed. Mae person ifanc y credwch sydd o dan 18 yn esgyn i'r cerbyd ac mae person ym mhen draw'r daith sydd yn edrych lawer yn hŷn yn cwrdd â chi ac yn talu'r ffi.

Beth fydddech yn ei wneud?

Gan y gall fod perygl ar ei union i'r person ifanc, dylech gysylltu â'r heddlu a dweud wrthynt am eich pryderon cyn gynted ag y bo modd drwy ddeialu 999.

Efallai y clywch neu weld rhywbeth yn y cerbyd
nad ydych yn hapus yn ei gylch, neu y clywch
sgyrsiau yn y gwaith rhwng gyrwyr eraill.
Gwrandewch ar eich greddf; os gwelwch rywbeth
nad sy'n ymddangos yn iawn, rhwch wybod.



Rhowch wybod!

Os gwelsoch neu y clywsoch rywbeth sy'n achosi pryder i chi, ffoniwch yr heddlu i ddweud wrthynt am yr hyn a welsoch. **Os ydych yn pryderu am ddiogelwch uniongyrchol plentyn, ffoniwch 999.** Os nad oes pryderon uniongyrchol gallwch ffonio 101 i gael cyngor.

Gwnewch nodyn o'r hyn ddigwyddodd. Dylech gynnwys cymaint o wybodaeth ag y bo modd megis disgrifiadau o bobl, enwau neu lysenwau a rhifau cofrestru ceir. Gallwch ddefnyddio'r tudalennau yng nghefn y canllaw hwn i gofnodi unrhyw wybodaeth am gerbydau, eiddo neu bobl sy'n destun pryder. Gall cadw cofnod yn syth eich helpu i gofio gwybodaeth bwysig a all helpu'r heddlu os oes rhaid iddynt weithredu.

Os ydych yn nodi lleoliadau neu feysydd sy'n peri pryder gallwch drosglwyddo'r wybodaeth yma i'r heddlu ar 101. Gallwch hefyd gysylltu â'ch tîm heddlu cymunedol lleol, adran drwyddedu, unedau diogelu'r cyhoedd a gwasanaethau plant i gael cyngor pellach ac arweiniad.

PEIDIWCH ag oedi rhag cysylltu â'r Heddlu. Bydd yr Heddlu yn ymateb i bob galwad bryderus.

Cofiwch fod hon yn DROSEDD GUDD.

Gwnewch yr alwad – gwnewch wahaniaeth i'r plentyn.

Rhannu Gwybodaeth

Y wybodaeth fwyaf defnyddiol wrth adrodd am ddigwyddiad i'r heddlu yw

- Disgrifiad o'r person
- Amser a dyddiad y gweloch y bobl:
- Gwryw/Benyw
- Oed:
- Maint/Taldra:
- Ethnigrwydd: (*Gwyn, Du, Tras Ddeuol, Asiaidd, Tsieineaidd, arall*)
- Ieithoedd a siaredir:
- Acen:
- Dillad:
- Gwallt lliw/math:
- Gwybodaeth Ychwanegol:
(*Beth ddigwyddodd? Ble? A oedden nhw'n cario unrhyw beth? Ble yr aethon nhw? A oedd unrhyw nodweddion amlwg ganddynt? A glywsoch chi nhw'n siarad?*)
- Disgrifiad o'r cerbyd
- Amser a dyddiad y gweloch y cerbyd:
- Lliw y cerbyd:
- Math/Model:
- Dillad:
- Rhif Cofrestru/Rhif cofrestru rhannol:
- Gwybodaeth ychwanegol:
(*Beth ddigwyddodd? Ble? Pwy oedd yn y cerbyd? Faint o deithwyr oedd? Ble yr aethon nhw? A oedd unrhyw nodweddion amlwg ganddynt?*)